# Y Pwyllgor Menter y Dysgu

**EL(3) 17-08 (p8) : 12 Mehefin 2008**

# Ymholiad pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch

## Pwrpas

Mae Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud ymholiad i gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru.

## Y Cefndir

Ym mis Medi 2007 daeth yr IMI (Sefydliad y Diwydiant Moduron) yn Gyngor Sgiliau Sector (SSC) newydd ar gyfer Sector Modurol Manwerthu.

I gyd-fynd â'r dyddiad yma, gofynnodd yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA)* iddynt ddechrau datblygu Strategaeth Cymwysterau Sector (SQS) ar gyfer y sector.

Daeth hi'n amlwg nad oedd yr ymwneud ag Addysg Bellach (AB) a sefydliadau Addysg Uwch (SAU) hyd y pwynt yma wedi bod ar y lefel y byddem wedi'i ddisgwyl neu ei ragweld. Cymerodd yr IMI y penderfyniad y byddem, drwy ddatblygiad yr SQS, yn dechrau eto yn ein hymwneud â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. I'r perwyl hwn, gan weithio drwy ein Rheolwr Cenedlaethol i Gymru, rydym wedi cychwyn trafodaethau gyda sefydliadau AU yng Nghymru i drafod y ddarpariaeth bresennol a darpariaeth y dyfodol.

## Crynodeb / Argymhellion

Drwy ddatblygiad Cynllun Gweithredu'r SQS i Gymru[#] rydym yn gobeithio sicrhau cytundeb gan sefydliadau AU unigol i weithio gyda ni i ddatblygu Graddau Sylfaen ar gyfer y sector. Credwn fod angen i ni ganolbwyntio ar ddau faes ar gyfer datblygu; rheolaeth ac arweiniad a chwaraeon moduro. Meddai'r Cynllun Gweithredu drafft (sydd heb ei gytuno eto gyda'r rhanddeiliaid):

*Mae adroddiad CCAUC, Astudiaeth o rôl Graddau Sylfaen yng Nghymru[1], wedi enwi'r sector moduron fel un fyddai'n elwa o ddatblygiad Graddau Sylfaen yng Nghymru. Bydd datblygiad Graddau Sylfaen yn helpu i ddechrau ymestyn lefel ac amrediad y sgiliau rheolaeth ac arweiniad yn y sector ac*

---

[*] Sef Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau Prydain (UKCES) erbyn hyn.
[#] Strategaeth Cymwysterau Sector Modurol Manwerthu v1.0 - Cynllun Gweithredu i Gymru v0.1
[1] Astudiaeth o rôlau Graddau Sylfaen yng Nghymru, adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (SQW, Mawrth 2007)

*felly'n helpu i newid diwylliant rheolaeth ac arweiniad a lefel y sgiliau sydd eu hangen gymaint gan y sector.*

*Hefyd, bydd datblygiad Gradd Sylfaen mewn chwaraeon moduro'n helpu Cymru ymhellach i gynnal a datblygu ei chyfraniad i'r sector yma.*

*Gweithio gyda sefydliadau AU a dod â nhw at ei gilydd gyda chyflogwyr yng Nghymru fydd ein cam cyntaf tuag at sicrhau Graddau Sylfaen addas-i'r-pwrpas ar gyfer y sector. O'r sefyllfa yma, byddwn wedyn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau fod Graddau Sylfaen wedi'u sylfaenu'n gadarn ar NOS (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol) a bod y rhain yn adlewyrchu anghenion y sector.*

Bydd y Cynllun Gweithredu yma wedi'i drafod, ei addasu os bydd raid, a'i gytuno gyda rhanddeiliaid yng Nghymru cyn ei gyflwyno i'r UKCES erbyn Gorffennaf 21ain 2008.

Edrychwn ymlaen at ddatblygu ein perthynas gyda sefydliadau AU yng Nghymru oherwydd bydd hyn yn ein galluogi i gyrraedd y nodau a'r amcanion, sydd wedi'u disgrifio yn ein SQS, er budd pawb sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru. Drwy lwyddo i wneud hyn byddwn yn sicrhau hefyd bod y sector yn gwneud ac yn gwella'i gyfraniad i agenda datblygu sgiliau ac economi Cymru.